



YSGOL GYMREAG YSTALYFERA-BRO DUR

Polisi Secstio

Athro Dynodedig Diogelu Plant Ystalyfera :

Mrs Delyth Spurway

Athro Dynodedig Diogelu Plant Bro Dur:

Miss Sioned Jones

Dirprwy ADDP Ystalyfera:

Mrs Rhiannon Hammond/Mrs Angharad Lloyd

Dirprwy ADDP Bro Dur:

Miss Kath Jones

Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant:

Mrs Carys Jones

Cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr 2018

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2018

Adolygwyd gan y Llywodraethwyr:

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2019

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2020

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2021

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2022

Polisi Secstio

Mae 'Sexting' yn weithgaredd cynyddol rhwng pobl ifanc lle maent yn rhannu delweddau anaddas neu cignoeth ar lein neu trwy ffonau symudol. Gwaetha'r modd mae yna bryder cenedlaethol ynglyn â phobl ifanc (o dan 18 oed) yn ymgymryd â'r weithgaredd o rannu/danfôn delweddau anaddas/cignoeth o'u hunain neu o blentyn arall trwy tecstio, SnapChat, Facebook, Instagram ac ati.

Diffiniad

'images or videos generated by children under the age of 18 that are of a sexual nature or are considered to be indecent. These images may be shared between children and young people and/or adults via a mobile phone, webcam, handheld device or website'.

Y Gyfraith

- Mae rhannu lluniau neu fideos rhywiol o blant dan 18 oed, hyd yn oed os yw'r plentyn / person ifanc ei hun yn rhannu llun ei hunan yn drosedd. Mae terseddau yn ymwneud â lluniau anwedus o berson dda 18 oed yn dod o dan *Section 1 of the Protection of Children Act 1978 and Section 160 Criminal Justice Act 1988*.

- O dan y ddeddfwriaeth yma mae'n drosedd i dynnu llun anwedus neu caniatáu i lun anwedus cael ei dynnu; creu llun anwedus (gan gynnwys agor llun sydd wedi cael ei rannu trwy SnapChat/ebost/tecst); rhannu neu ddangos llun; meddu neu ddangos llun tebyg; hysbysebu delwedd o'r math.

Mae pobl ifanc yn cyfeirio at y weithred fel:

Cybersex

Sending a nudie, picture or selfie

Trading nudes

Dirtyies

Pic for pic.

Mae 'Secstio' yn cael ei weld fel fflyrtio rhwng pobl ifanc / plant sy'n ei ystyried fel rhan o fywyd normal.

Delio gyda digwyddiadau o 'Secstio' Yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur

Staff

Pan ddaw digwyddiad o secstio i sylw yr ysgol:

- Dylid cyfeirio'r mater yn syth i Athro Dynodedig Diogelu Plant yr Ysgol (Mrs Laurel Davies/Miss Sioed Jones) neu aelod o'r Tîm Diogelu Plant (Mrs Delyth Spurway, Mr Gareth Huxtable, Mr Emyr Evans, Mrs Angharad Lloyd)

Tîm Diogelu Plant

Wrth ddod i farn ar bob digwyddiad secstio rhaid ystyried y canlynol:

- Mae Secstio yn gallu cael ei weld fel digwyddiad cyffredin rhwng pobl ifanc; yn aml maent yn disgrifio'r digwyddiadau fel '*gweithgaredd cyffredin*';
- Yr heddlu (P.C. Cerian Hughes) bydd yn delio â'r disgyblion sydd ynglwm â gweithgareddau secstio a byddant yn cacel ei trin fel dioddefwr nid tramgwyddwr (oni bai bod gwybodaeth llinarol yn nodi yn wahanol.
- Rhaid recordio pob digwyddiad. Gan gynnwys yr holl gamau a gymerwyd a'r hyn na wnaethpwyd yn unol â rhesymwaith.
- Gwahaniaeth oedran rhwng yn disgyblion ynglwm – danfonydd / derbyniwr.
- A oes unrhyw bwysau allanol neu annogaeth y tu hwnt i'r danfonydd / derbyniwr.
- Ydych chi'n adnabod y disgybl fel disgybl mwy bregus (risg uwch)
- Natur/difrifoldeb cynnwys y llun.
- Os yw'r llun wedi cael ei rannu ymhellach.
- Os yw'r plant / pobl ifanc wedi ymwneud â gweithredoedd tebyg yn y gorffennol.
- Gwybodaeth pellach am y disgyblion (e.e.sefyllfa gartref anodd)

Ymateb cychwynol:

- ADDP (Athro Dynodedig DP – Mrs Laurel Davies/ Miss Sioned Jones) i gynnal cyfarfod cychwynol gyda'r staff perthnasol.
- Cyfarfodydd / Cyfweiliadau gyda'r bobl ifanc (os yn berthnasol)
- Rhennir y wybodaeth gyda'r rhieni yn gynnar a dylid eu cynnwys yn y broses (oni bai fod yna rheswm i ystyried yn byddai hyn yn gosod yn person ifanc mewn perygl o niwed)
- Ar unrhyw bwynt yn y broses os oes consyrn bod y person ifanc wedi cael ei anafu neu dan risg o gael ei anafu rhaid cyfeirio at yr heddlu neu gwasanaethau plant.

Dylid gwneud cyfeiriad unionsyth at yr heddlu neu gwasanaethau plant os yw:


- Y digwyddiad yn ymwneud ag oedolyn.
- Bod rheswm i feddwl bod y person ifanc wedi cael ei berswadio / llwgrwobrwyo neu 'groomed' neu bod ADY yn bodoli a phryder am y dealltwriaeth sylfaenol.

- Unrhyw wybodaeth o'r delweddau sydd yn awgrymu bod yn gweithredoedd yn ymwneud â gweithgareddau rhywiol sy'n anarferol o ran oedran/datblygiad y plentyn/person ifanc.
- Bod y delweddau yn cynnwys gweithredoedd rhywiol ac unrhyw ddisgybl o dan 13 oed.
- Eich bod o'r farn bod y person ifanc dan fygythiad o risg oherwydd bod y llun wedi ei ddosbarthu e.e bod y person ifanc yn ardangos nodweddion hunan anafu neu yn son am hunan-laddiad.

Bydd yr ADDP yn defnyddio barn broffesiynol ochr yn ochr â thrafodaethau gyda chydweithwyr wrth asesu pob digwyddiad unigol.

Mae'r polisi hwn yn gweithredu ochr yn ochr â pholisi Amddiffyn Plant yr ysgol.

ADDP = Athro Dynodedig Diogelu Plant – Mrs Laurel Davies/Miss Sioned Jones

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Alun Llewelyn		Ionawr 2021
Pennaeth	Mrs Laurel Davies		Ionawr 2021

Dyddiad Adolygu	Ionawr 2022
------------------------	-------------